Polisi Apeliadau Rheoleiddiol

EBRILL 2019

Hon yw Fersiwn 3 o'r Polisi Apeliadau Rheoleiddiol ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd Cymwysterau Cymru ar 28 Mawrth 2019. Diweddarwyd y polisi yn dilyn adolygiad yn 2018 ac mae'n disodli'r Fersiwn (2) flaenorol o'r polisi hwn.

Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Dylech anfon eich sylwadau i polisi@cymwysteraucymru.org

Cynnwys

Cyflwyniad 4
Cwmpas Apeliadau Rheoleiddiol 5
Cynnal Apêl 6
Gwneud Apêl 6
Proses Apeliadau Rheoleiddiol 9
Cam 1 - Asesu 9
Cam 2 – Adolygiad Mewnol 9
Cam 3 – Adolygiad Annibynnol 10
Camau Gweithredu ar ôl Apêl Reoleiddiol 11
Atodiad 1 - Proses Apeliadau Rheoleiddiol 12

Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn nodi hawliau cyrff dyfarnu o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 i wneud cais i apelio yn erbyn ein penderfyniad rheoleiddiol mewn perthynas â'r canlynol:

i. cyfarwyddo corff dyfarnu i wneud trefniadau i drosglwyddo math o gymhwyster a gynigir ganddo i gorff dyfarnu arall (Amod Trosglwyddo);
ii. cynnig cyfyngiad ar y ffioedd y gall corff dyfarnu eu codi am wasanaethau mewn perthynas â dyfarnu cymhwyster (Amod Capio Ffioedd);
iii. tynnu cydnabyddiaeth yn ôl oddi wrth gorff dyfarnu.

Mae hefyd yn amlinellu'r ffordd rydym yn ymdrin ag apeliadau rheoleiddiol, sy'n cynnwys adolygiad mewnol ac annibynnol o'r penderfyniad ac yn esbonio'r broses y byddwn yn ei dilyn.

Nod y polisi hwn yw:

- sicrhau bod y corff dyfarnu y cyfeiriwyd y penderfyniad rheoleiddiol ato yn cael cyfle i wneud cais am i'r penderfyniad hwnnw gael ei adolygu, yn unol â Deddf Cymwysterau Cymru 2015;
- cynnig proses dryloyw o ymdrin â'r uchod;
- rhoi hyder i'r cyhoedd ynghylch penderfyniadau Cymwysterau Cymru.

Fel rheoleiddiwr, rydym hefyd yn gwneud mathau eraill o benderfyniadau rheoleiddiol nad ydynt yn ddarostyngedig i apêl reoleiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- penderfyniad ar gais am gydnabyddiaeth;
- penderfyniad i beidio â Chymeradwyo neu beidio â Dynodi math o gymhwyster;
- penderfyniad i dynnu cymeradwyaeth yn ôl mewn perthynas â chymhwyster Cymeradwy;
- penderfyniad i ddirymu dynodiad mewn perthynas â chymhwyster Dynodedig;
- penderfyniad nad yw corff dyfarnu yn cydymffurfio ag Amod Cydnabod;
- Cyfarwyddyd a roddir i gorff dyfarnu.

Wrth wneud penderfyniadau rheoleiddiol o'r fath ynglŷn â chyrff dyfarnu unigol, byddwn yn hysbysu corff dyfarnu o'n bwriad i wneud hynny. Byddwn yn rhoi cyfle i'r corff dyfarnu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i ni ac yn yr hysbysiad byddwn yn cynnwys y dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno'r sylwadau hynny.

Ar ôl i ni ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd, byddwn yn penderfynu p'un a ddylem dynnu ein penderfyniad yn ôl, ei newid neu ei gadarnhau. Byddwn yn cadarnhau ein penderfyniad yn ysgrifenedig ynghyd â pha gamau, os o gwbl, y bydd yn ofynnol i'r corff dyfarnu eu cymryd.

Nid yw'r polisi hwn yn cwmpasu:

i. penderfyniadau i roi cosb ariannol na swm y gosb honno. Mae gan gyrff dyfarnu yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, yn unol ag adran 39 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015;
ii. penderfyniadau i adennill costau Cymwysterau Cymru am gamau gorfodi. Mae gan gyrff dyfarnu yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, yn unol ag adran 41 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015;
iii. cwynion am gorff dyfarnu. Rydym yn disgrifio'r mathau hyn o gwynion a'r ffordd y byddwn yn ymateb iddynt yn ein **Polisi Cwynion am Gyrff Dyfarnu**;
iv. datgeliadau gan weithwyr mewn cyrff dyfarnu. Rydym yn disgrifio'r mathau hyn o gwynion a'r ffordd y byddwn yn ymateb iddynt yn ein **Polisi Rheoleiddiol ar Chwythu'r Chwiban**;
v. cwynion am y ffyrdd y mae Cymwysterau Cymru yn arfer ei swyddogaethau. Rydym yn disgrifio'r mathau hyn o gwynion a'r ffordd y byddwn yn ymateb iddynt yn ein **Polisi Cwynion Corfforaethol**.
vi. achosion cyfreithiol neu ddyfarniadau. Dylai'r rhain gael eu **hanfon ymlaen** at y Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol;
vii. dylid cyfeirio cwynion ynglŷn â chynnig neu ddyfarnu contract ar gyfer nwyddau, gwaith neu wasanaethau at y **Pennaeth Caffael**;
viii. cwynion a godwyd gan gyflogeion. Ymdrinnir â'r rhain drwy ein polisïau adnoddau dynol mewnol.

Cwmpas Apeliadau Rheoleiddiol

1. Gall corff dyfarnu wneud cais am apêl reoleiddiol os yw wedi bod yn destun y penderfyniadau canlynol gan Cymwysterau Cymru, unwaith bod y penderfyniadau hyn wedi cael eu cadarnhau:

i. cyfarwyddo corff dyfarnu i wneud trefniadau i drosglwyddo math o gymhwyster a gynigir ganddo i gorff dyfarnu arall (Amod Trosglwyddo);
ii. cynnig cyfyngiad ar y ffioedd y gall corff dyfarnu eu codi am wasanaethau mewn perthynas â dyfarnu cymhwyster (Amod Capio Ffioedd);
iii. tynnu cydnabyddiaeth yn ôl oddi wrth gorff dyfarnu.

2. Pan fyddwn yn gohebu'n ysgrifenedig ynglŷn â'r penderfyniadau a restrir uchod, byddwn yn hysbysu'r corff dyfarnu o'i hawl i wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw ac erbyn pryd y bydd yn rhaid iddo wneud cais o'r fath.

Cynnal Apêl

3. Pan fyddwn yn cynnal apeliadau, byddwn bob amser yn ceisio gweithredu yn unol ag egwyddorion rheoleiddio da, a chaiff apeliadau eu hystyried mewn ffordd deg a thryloyw. Yn unol â'n prif nodau, byddwn yn ceisio diwallu anghenion rhesymol dysgwyr a chynnal hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau ac ynom ni fel rheoleiddiwr.

4. O ran hyn, y Tîm Llywodraethu Corfforaethol fydd y prif bwynt cyswllt ar gyfer yr apelydd a bydd yn goruchwylio trefniadau unrhyw apeliadau.

5. Byddwn yn sicrhau y caiff yr apelydd ei hysbysu am y canlynol:

   i. enw'r Swyddog Apeliadau
   ii. pryd rydym yn disgwyl cwblhau'r adolygiad ac, os oes oedi neu ohiriadau annisgwyl, unrhyw derfynau amser diwygiedig. Byddwn yn anelu at roi ymateb cyflym ond byddwn yn rhoi diweddariadau rheolaidd a rhesymau dros unrhyw oedi;
   iii. y dystiolaeth neu'r dogfennau allweddol sy'n dylanwadu ar y penderfyniad terfynol a'r hawl i ofyn am gopi o'r dystiolaeth honno a gwrthbrofi neu wadu ei gonestrwydd neu ei chywirdeb[1];
   iv. y penderfyniad terfynol ar ffurf adroddiad neu ddatganiad ysgrifenedig.

6. Bydd y Swyddog Apeliadau yn unigolyn nad oedd yn ymwneud â'r penderfyniad rheoleiddiol sy'n destun yr apêl.

7. Caiff adolygiad mewnol ei gynnal gan aelodau o'r staff nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r penderfyniad rheoleiddiol ac nad oes ganddynt achos o wrthdaro buddiannau nad oes modd ei reoli na'i liniaru.

8. Hefyd, bydd gennym adolygwyr annibynnol yn eu lle sydd wedi'u contractio i ymgymryd â'r rôl hon ac sy'n annibynnol arnom.

Gwneud Apêl

[1] Ar y cam adolygu annibynnol, bydd gan yr apelydd a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn Cymwysterau Cymru yr hawl i weld yr un wybodaeth.

9. Byddwn yn ystyried apêl os yw wedi dod i law o fewn 20 diwrnod gwaith i ddyddiad y penderfyniad rheoleiddiol.

10. Wrth wneud cais i apelio, mae'n rhaid i'r apelydd nodi ar ba sail y mae'n gwneud hynny, megis y canlynol:

    a. ni chafodd y penderfyniad ei wneud yn unol â'r polisi perthnasol, rheoliadau, deddfwriaeth neu wybodaeth arall a gafodd ei chyhoeddi neu ei chyfleu gan Cymwysterau Cymru;

    b. roedd y penderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth anghyflawn neu anghywir, i'r graddau ei bod yn rhesymol dod i'r casgliad y gall y penderfyniad fod wedi bod yn wahanol[2]; neu

    c. roedd rhagfarn neu duedd gan un neu fwy o'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

11. Gallwn wrthod ystyried, neu ohirio ystyried, apeliadau sy'n destun achos cyfreithiol ffurfiol neu ymchwiliad gan gorff rheoleiddio arall.

12. Byddwn yn cydnabod yr apêl o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl iddi ddod i law.

13. Wrth gyflwyno apêl, mae disgwyl i chi gyflwyno datgeliad llawn a gonest o'r holl ffeithiau perthnasol. Dylech gynnwys y wybodaeth ganlynol:

    i. eich enw llawn;
    ii. gwybodaeth gyswllt;
    iii. esboniad clir o natur eich apêl a'r sail drosti;
    iv. dyddiadau perthnasol a manylion yr apêl;
    v. cronoleg o'r ffeithiau y seilir yr apêl arnynt;
    vi. copïau o unrhyw ddogfennau ategol perthnasol (os ydych yn aros am ddogfennau i'w cyflwyno, nodwch hyn a phryd y bwriadwch eu cyflwyno)[3];
    vii. y rhwymedi rydych yn ei geisio.

14. Mae'n ofynnol i apelyddion:

---

[2] Os ydych yn apelio ar y sail hon a bod yr apêl yn ymwneud â gwybodaeth nas darparwyd gennych ar adeg y penderfyniad cychwynnol, rhaid i chi gynnwys datganiad yn egluro pam nad oedd ar gael cyn hyn. Gall methu â darparu seiliau dilys arwain at wrthod eich apêl. Efallai y bydd yn ofynnol i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol

[3] Er mwyn sicrhau y cyflwynir apeliadau o fewn y terfynau amser cyhoeddedig, gall apelyddion gyflwyno apeliadau tra byddant yn aros am y dogfennau ategol, gan roi rhesymeg a therfynau amser disgwyliedig ar gyfer derbyn y dogfennau. Noder y gall oedi wrth gyflwyno dogfennau effeithio ar y terfynau amser ar gyfer adolygu eich apêl.

i. rhoi gwybod i ni os oes unrhyw wrthdaro buddiannau posibl;
ii. bodloni ceisiadau rhesymol y rhai sy'n adolygu'r apêl, gan gynnwys ceisiadau am gyfarfodydd a gwybodaeth. Mae gan apelyddion yr hawl i wrthod cyfarfod â'r adolygwyr neu roi tystiolaeth, ond dylid nodi y caiff penderfyniadau eu gwneud ar sail y wybodaeth a ddarparwyd ac ni fydd cyfle arall i nodi bod y dystiolaeth a ystyriwyd yn anghyflawn;
iii. ymddwyn mewn modd boneddigaidd a chwrtais. Credwn y dylai pob apelydd gael yr hawl i gael ei glywed, ei ddeall a'i barchu a bod gan ein staff yr un hawliau. Ni fyddwn yn goddef ymddygiad ymosodol na difrïol, gofynion afresymol na dyfalbarhad afresymol.

15. Byddwn yn gwrthod ymdrin ag apeliadau y parheir â hwy'n afresymol neu apeliadau blinderus. Apeliadau y parheir â hwy'n afresymol a/neu apeliadau blinderus yw'r rhai lle y tybir bod yr apelydd yn bwrw ymlaen ag apêl heb rinwedd a/neu'n bwriadu achosi anghyfleustra, aflonyddu neu gost i'r sefydliad. Os byddwn yn tybio y parheir â mater yn afresymol neu fod mater yn flinderus, byddwn yn cysylltu â'r apelydd i nodi hyn ac esbonio pam.

16. Os hoffech gyflwyno apêl, anfonwch e-bost at y Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn:

corporategovernance@qualificationswales.org neu ysgrifennwch atom yn:

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

Proses Apeliadau Rheoleiddiol

17. Ymdrinnir ag apeliadau drwy broses ac iddi dri cham penodol. Dangosir y rhain yn Atodiad 1 i'r polisi hwn.

18. Byddwn yn ymdrin ag apeliadau rheoleiddiol drwy broses apelio ffurfiol a bydd ein penderfyniadau rheoleiddiol naill ai'n cael eu cadarnhau, eu diwygio neu eu gwrthdroi o ganlyniad i hynny. Drwy gydol y broses hon, byddwn yn annog deialog agored â chyrff dyfarnu perthnasol a byddwn yn barod i ddod o hyd i ateb i dorri'r anghydfod. Gall yr apelydd dynnu ei apêl yn ol ar unrhyw gam o'r broses.

Cam 1 - Asesu

19. Mae'n rhaid i bob cais i apelio gael ei gyflwyno i'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol ac yn y lle cyntaf, byddwn yn asesu p'un a yw'r cais o fewn cwmpas y polisi hwn.

20. Ar ôl yr asesiad hwn, byddwn yn ysgrifennu at yr apelydd o fewn 10 diwrnod gwaith ar ol i'r cais ddod i law, er mwyn cadarnhau p'un a yw o fewn cwmpas y polisi hwn. Os felly, byddwn yn hysbysu'r apelydd y caiff yr apêl ei hadolygu'n ffurfiol o dan gam 2 fel y nodir isod.

Cam 2 – Adolygiad Mewnol

21. Bydd y Swyddog Apeliadau yn adolygu'r penderfyniad rheoleiddiol sy'n destun yr apêl, y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr apelydd yn ei gais am yr apêl ac unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol arall.

22. Fel arfer, bydd y Swyddog Apeliadau yn anfon Penderfyniad Apêl drafft o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad y llythyr sy'n cadarnhau canlyniad yr apêl. Bydd y Penderfyniad Apêl drafft yn nodi p'un a ydym yn bwriadu gwrthod yr apêl (a thrwy hynny gadarnhau'r penderfyniad rheoleiddiol gwreiddiol), diwygio'r penderfyniad rheoleiddiol gwreiddiol, naill ai'n llawn neu'n rhannol, neu gadarnhau'r apêl (naill ai'n llawn neu'n rhannol) a rhoi rhesymau dros y penderfyniad.

23. Caiff yr apelydd ei wahodd i gyflwyno ei sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y Penderfyniad Apêl drafft o fewn 10 diwrnod gwaith.

24. Ar ôl y terfyn amser hwn, bydd y Swyddog Apeliadau yn adolygu'r sylwadau sydd wedi dod i law, yn gwneud penderfyniad terfynol ac yn hysbysu'r apelydd am y canlyniad o fewn 10 diwrnod gwaith arall.

25. Pan gadarnheir apêl byddwn yn gwneud pob ymdrech i egluro'r hyn a ddigwyddodd a pham. Caiff y penderfyniad rheoleiddio ei ddirymu. Lle y bo modd byddwn yn anelu at roi rhwymedi priodol.

26. Lle y caiff penderfyniad rheoleiddio ei gadarnhau, byddwn yn rhoi rhesymau dros y penderfyniad a'r ddogfennaeth ategol i'r apelydd. Yn ein hymateb byddwn yn cynnwys yr hawl i wneud cais am adolygiad annibynnol. Bydd y wybodaeth a roddir yn ein hymateb yn cael ei chyflwyno fel ein hymateb ffurfiol i'r adolygiad mewnol a chaiff ei darparu, os bydd angen, i'r Adolygwr Annibynnol yn ystod camau dilynol y broses.

Cam 3 – Adolygiad Annibynnol

27. Os bydd yr apelydd yn anfodlon ar ganlyniad ein Hadolygiad Mewnol, gall wneud cais am Adolygiad Annibynnol.

28. Mae'n rhaid i'r apelydd gyflwyno cais ysgrifenedig i'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol o fewn 20 diwrnod gwaith i ganlyniad y cam Adolygu Mewnol.

29. Caiff yr apelydd gyflwyno tystiolaeth ychwanegol, ond mae'n rhaid cyflwyno datganiad ar yr un pryd yn egluro pam na chafodd ei chyflwyno ar gam cynharach. Heb reswm dilys, gellir tybio na fydd modd derbyn tystiolaeth ychwanegol.

30. Caiff y cais, ac unrhyw dystiolaeth ategol a gyflwynwyd gan yr apelydd neu gan unrhyw barti arall yr effeithir arno eu darparu i Adolygwr Annibynnol.

31. Diben yr Adolygwr Annibynnol yw llunio barn annibynnol ar benderfyniad Cam 2 a wnaed gan Cymwysterau Cymru. O ran yr Adolygwr Annibynnol:

    i. ni fydd yn aelod o'n staff nac yn aelod o'n Bwrdd;
    ii. ni fydd ganddo wrthdaro buddiannau ag unrhyw bersonau sy'n gysylltiedig â'r achos;
    iii. ni fydd wedi bod yn ymwneud â'r penderfyniad yn flaenorol;
    iv. ni fydd wedi cael ei gyflogi gan gorff dyfarnu perthnasol a gydnabyddir gennym yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf;
    v. bydd yn cael ei ddewis ar sail arbenigedd perthnasol.

32. Bydd yr Adolygwr Annibynnol yn ystyried yr achos yn seiliedig ar y ddogfennaeth a ddarparwyd gan yr apelydd a gennym ni. Lle y bo'n briodol, gall hefyd ofyn i'r partïon perthnasol am ragor o wybodaeth.

33. Gall yr Adolygwr Annibynnol gyfweld unrhyw bersonau sydd, yn ei farn ef, yn berthnasol i gwblhau ei ymchwiliad ond nid oes rhaid iddo gynnal unrhyw gyfweliadau. Bydd yr Adolygwr Annibynnol fel arfer yn ystyried yr achos o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl i'r cais ddod i law a bydd yn cyflwyno adroddiad llawn i Cymwysterau Cymru.

34. Bydd yr Adolygwr Annibynnol yn gwneud argymhelliad i Cymwysterau Cymru naill ai:

    i. cadarnhau penderfyniad Cam 2;
    ii. cadarnhau penderfyniad Cam 2 yn rhannol (gan gynnwys yn rhinwedd yr un canlyniad ond ar sail wahanol); neu
    iii. gwrthdroi penderfyniad Cam 2 a'i ailystyried.

35. Byddwn yn hysbysu'r apelydd am argymhellion yr Adolygwr Annibynnol ac am y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd o fewn 20 diwrnod gwaith.

36. Byddwn yn rhoi sylw priodol i unrhyw argymhellion a wneir gan yr Adolygwr Annibynnol a byddwn fel arfer yn gwneud pob ymdrech i ddilyn argymhellion yr Adolygwr Annibynnol. Lle nad ydym yn gweithredu rhai o'r argymhellion, neu bob un ohonynt, byddwn yn esbonio'r rhesymau i'r apelydd.

Camau Gweithredu ar ôl Apêl Reoleiddiol

37. Ar ôl i broses Apêl Reoleiddiol ddod i ben, bydd ein penderfyniad yn derfynol a byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu gydymffurfio â'n penderfyniad.

38. Fel arfer byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau rheoleiddiol ar ein gwefan.

Atodiad 1 - Proses Apeliadau Rheoleiddiol